Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Rejuva, Rhuddlan

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2025

Dyddiad cyhoeddi: 11 Gorffennaf 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn:0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80633-159-8

© Hawlfraint y Goron 2025

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

### Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

### Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

### Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

### Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 14

4. Y camau nesaf .......... 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 18

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Rejuva, Rhuddlan ar 10 Ebrill 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Nodwyd gennym fod Rejuva yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda gweithredwyr Goleuni Pwls Dwys (IPL) cyfeillgar a phroffesiynol.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol a chroesawgar
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus
- Roedd y staff yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwrando ar y cleifion
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn ystafelloedd trin a oedd yn gwarchod eu hurddas.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Rejuva yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau roedd wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriant IPL yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r ddau weithredwr IPL gwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân
- Dylai'r swyddog ymateb cymorth cyntaf adnewyddu ei hyfforddiant.
- Dylai'r rheolwr cofrestredig adnewyddu hyfforddiant atal a rheoli heintiau
- Sicrhau bod y peiriant IPL yn cael ei wasanaethu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig a'r ystafell drin wedi'u dylunio a'u gorffen i safon uchel
- Roedd yr ystafell drin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth
- Roedd y cleifion yn fodlon iawn ar eu triniaethau a'r gwasanaethau a ddarparwyd
- Roedd nodiadau'r cleifion o safon dda.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn Rejuva.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig ac yn ymroddedig dros ben i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r ddau weithredwr IPL gwblhau hyfforddiant arddiogelu data a llywodraethu gwybodaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd pob unigolyn a oedd wedi'i awdurdodi i ddefnyddio'r peiriant IPL wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd gwybodaeth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant IPL
- Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda iawn.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 11 o ymatebion.

Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

> ***"Proffesiynol, cyfeillgar, diogel."***
>
> ***"Mae pawb bob amser yn ddefnyddiol, does dim byd yn ormod o drafferth (hyd yn oed pan fydd gennych lawer o gwestiynau!)."***
>
> ***"Gwnaeth y therapydd wneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn a chafodd y driniaeth ei gwneud yn dda iawn!."***

**Urddas a pharch**
Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch pan wnaethant ymweld â'r clinig.

Roedd modd cloi drws yr ystafell drin, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y drws wedi cael ei gloi yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd. Roedd y cleifion yn cael tywelion er mwyn diogelu eu hurddas os oedd angen, ac roedd y staff yn gadael yr ystafell er mwyn iddynt ddadwisgo os oedd angen.

Cafodd ymgynghoriadau eu cynnal yn yr ystafell drin, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i neb arall ei chlywed.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a'u bod yn gwrando arnynt ac yn ateb unrhyw gwestiynau.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol driniaethau, a'r gwasanaethau ôl-ofal. Dywedodd un claf wrthym:

> ***"Roeddwn ychydig yn ofidus am unrhyw boen roedd y driniaeth laser am achosi, fodd bynnag, rhoddodd [y therapydd laser] dawelwch meddwl i mi drwy esbonio'r broses yn llawn ac esbonio yn union beth i'w wneud os oeddwn yn dymuno iddi stopio ar unrhyw adeg."***

Roedd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn cael unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol a ffurflen gydsynio a'u bod wedi cael prawf croen cyn cael unrhyw driniaeth newydd. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol.

Gwelsom fod y staff yn gofyn i'r cleifion gwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol ar ddechrau pob triniaeth, cyn cael prawf croen. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu hanes meddygol yn ystod pob apwyntiad dilynol hefyd.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i'r cleifion eu cadw. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Mae'r rheolwr cofrestredig yn fedrus wrth gyfathrebu yn y Gymraeg a gwnaeth gyfathrebu â'r cleifion yn ddwyieithog.

**Cynllunio a darparu gofal**

Roedd nodiadau cleifion unigol manwl ar gael, ac roedd tystiolaeth o brosesau da ar gyfer cadw cofnodion. Roedd dogfennaeth dda ar waith yn ymdrin â math o groen, cydsynio i driniaeth a hanes meddygol.

Roedd gwybodaeth am driniaethau yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol ac roedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y clinig yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gael adborth cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Gwnaethom drafod y dull ar gyfer mynd ati i gael adborth gan gleifion, ac mae'r clinig wedi gwneud hynny drwy anfon holiadur at gleifion drwy neges e-bost ar ddiwedd eu triniaeth. Roedd y cleifion hefyd yn gallu rhoi adborth wyneb yn wyneb neu'n ddienw drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwelsom hefyd fod gwiriad weirio trydanol wedi cael ei gynnal o'r adeilad yn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer diogelwch tân a gwelsom fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu a bod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân.

Roedd asesiadau risg tân ar waith, a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd profion larwm tân yn cael eu cynnal ac roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i'r ddau weithredwr IPL adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân ac iechyd a diogelwch yn y gwaith. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod y ddau weithredwr IPL wedi cwblhau'r hyfforddiant iechyd a diogelwch yn y gwaith.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y ddau weithredwr IPL yn cael hyfforddiant gloywi diogelwch tân.**

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael. Fodd bynnag, roedd y pecyn yn cynnwys sawl eitem yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod y clinig wedi prynu pecyn cymorth cyntaf newydd abod y pecyn hwnnw wedi cyrraedd y clinig.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig mai ef oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig ynghyd â'r derbynnydd. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu'r hyfforddiant cymorth cyntaf ar gyfer y rheolwr cofrestredig. Rydym yn argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig adnewyddu ei hyfforddiant cymorth cyntaf.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn adnewyddu ei hyfforddiant ar ddod yn swyddogion cymorth cyntaf.**

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus yr olwg.

Gwnaethom drafod y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau a oedd yn cynnwys tasgau dyddiol ac wythnosol a'r trefniadau glanhau rhwng y cleifion. Roeddem o'r farn bod

y trefniadau sydd ar waith yn briodol i amddiffyn y cleifion rhag achosion o groes-heintio.
Fodd bynnag, gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod dim polisi rheoli heintiau ar waith a dim amserlenni glanhau na rhestrau gwirio yn cael eu cynnal. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i gadarnhau bod polisi rheoli heintiau wedi cael ei ddatblygu yn ogystal ag amserlenni glanhau a rhestrau gwirio wedi cael eu rhoi ar waith yn y clinig.

Gwelsom fod angen adnewyddu'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer y rheolwr cofrestredig ac roedd angen adnewyddu hyfforddiant y gweithredwr IPL. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod y gweithredwr IPL wedi adnewyddu ei hyfforddiant.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn adnewyddu ei hyfforddiant atal a rheoli heintiau.**

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y clinig. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol ac roedd contract ar waith gyda chludwr gwastraff cymeradwy.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos fod y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr IPL wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelu lefel dau. Fodd bynnag, gwelsom fod angen adnewyddu'r hyfforddiant. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr IPL wedi adnewyddu eu hyfforddiant.

Roedd polisi ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed a phlant. Roedd gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, ynghyd â siartiau llif a manylion cyswllt a oedd yn rhestru'r camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr IPL. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos pan oedd y peiriant IPL yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drws yr ystafell

drin wedi cael ei gloi pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant wedi cael ei gadw'n ddiogel ac mai dim ond gyda chod mynediad y gellid ei actifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod angen gwasanaethu'r peiriant IPL.

**Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y peiriant IPL yn cael ei wasanaethu a bod y dystiolaeth yn cael ei chyflwyno i AGIC.**

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi'u hadolygu'n ddiweddar gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'r triniaethau a ddarperir. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig hefyd bwysigrwydd arsylwadau ar ôl y driniaeth ac apwyntiad dilynol â'r cleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal unigol gwell drwy gydol y driniaeth.

Gwnaethom ofyn am dystiolaeth o weithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y clinig. Er ein bod wedi gweld tystiolaeth o adborth gan gleifion, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal o'r trefniadau atal tân, iechyd a diogelwch, prosesau atal a rheoli heintiau nac o gofnodion y cleifion. Byddai hyn yn helpu'r clinig i gydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo asesu a monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau angenrheidiol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.**

**Rheoli cofnodion**

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf. Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion da yn cael eu cadw, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes meddygol, y rhannau o'r corff a gafodd eu trin, paramedrau perthnasol, nifer y dosau a manylion unrhyw effeithiau andwyol. Roedd y cofnodion yn fanwl, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Rejuva ac yn rhedeg y clinig, a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rolau.

Gwelsom dystysgrif gofrestru gyfredol gan AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr cyfredol yn cael eu harddangos.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys dyddiadau fersiynau a / neu ddyddiadau adolygu.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd polisi cwynion ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd y weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Roedd gan y clinig system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Gwelsom fod proses recriwtio ar waith yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod unrhyw staff newydd yn ymgymryd â phroses sefydlu fanwl wedi'i dilyn gan gyfnod prawf â threfniadau goruchwylio priodol. Rhoddwyd disgrifiadau swydd manwl i'r staff yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwelsom fod digon o staff wedi cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y clinig ac i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth ynghyd â hyfforddiant ar beiriannau penodol. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu hyfforddiant craidd gwybodaeth. Mae canllawiau'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn argymell bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei adnewyddu o leiaf bob pum mlynedd. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr IPL wedi adnewyddu eu hyfforddiant craidd gwybodaeth. Gwnaethom hefyd argymell y dylai'r holl staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu data a llywodraethu gwybodaeth.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r hyfforddiant ar ddiogelu data a llywodraethu gwybodaeth.**

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau nad oedd gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gwblhau yn ddiweddar ar y gweithredwr IPL. Gwnaethom

drafod y gofyniad o dan y rheoliadau er mwyn cadarnhau bod unigolion yn parhau'n addas i weithio i'r clinig. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni fod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Yn ogystal, bydd y rheolwr cofrestredig hefyd yn trefnu i gael hunan-ddatganiad gan yr aelod o'r staff i gadarnhau bod dim newid i'w statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod y gweithredwr wedi cwblhau hunan-ddatganiad a bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Rejuva, Rhuddlan

## Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn. | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Rejuva, Rhuddlan

**Dyddiad yr arolygiad:** 10 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Gwelsom fod angen i'r staff adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y ddau weithredwr IPL yn cael hyfforddiant gloywi diogelwch tân. | Safon 12 Amgylchedd / Rheoliad 26, 40 Safon 22 Rheoli Risg a Iechyd a Diogelwch / Rheoliad 9, 19, 26 | Hyfforddiant Diogelwch Tân wedi'i gwblhau 22.05.2025 | Jackie Burnham | Wedi'i gwblhau |
| 2. | Nodwyd gennym fod angen i'rswyddog cymorth cyntaf adnewyddu ei hyfforddiant. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn adnewyddu ei hyfforddiant ar ddod yn swyddogion cymorth cyntaf. | Safon 4 Cynllunio ar gyfer Argyfyngau / Rheoliadau 15, 26 | Hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn mynd rhagddo ar hyn o bryd | Jackie Burnham | 20 Mehefin 2025 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | Roedd angen i'r rheolwr cofrestredig adnewyddu ei hyfforddiant atal a rheoli heintiau. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn adnewyddu ei hyfforddiant atal a rheoli heintiau. | Safon 13 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi / Rheoliad 9, 15 | Wedi'i gwblhau 21.04.2025 | Jackie Burnham | Wedi'i gwblhau |
| **4.** | Gwelsom fod angen gwasanaethu'r peiriant IPL. | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y peiriant IPL yn cael ei wasanaethu a bod y dystiolaeth yn cael ei chyflwyno i AGIC. | Safon 16 Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol / Rheoliad 15, 23 ac Amserlen 3 | Wedi'i gwblhau 10.6.25 | Jackie Burnham | Wedi'i gwblhau |
| **5.** | Gwelsom nad oedd y clinig wedi cynnal unrhyw archwiliadau. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau. | Safon 6 Cymryd rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd / Rheoliad 9, 19, 28, 30, 31, 32, 33, 34, 35 | Yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. | Jackie Burnham | 20.6.25 |
| **6.** | Gwnaethom hefyd weld bod angen i'r staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu data a llywodraethu gwybodaeth. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r hyfforddiant ar ddiogelu data a llywodraethu gwybodaeth. | Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol / Rheoliad 20, 21, 22 | Wedi'i gwblhau 27.5.2025 | Jackie Burnham | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Jackie Burnham**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr/Perchennog**

**Dyddiad: 10.06.2025**